

AGENDA

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir aelodau yn barchus fod angen datgan buddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran aelodau nad ydynt yn bresennol.

2. ADRODDIAD AR DALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) TACHWEDD 2019

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi wedi'i amgáu).

3. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU AR GYFER Y RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi wedi'i amgáu) a gwneud penderfyniad yn ei gylch.

4. ADOLYGIAD O REOLIADAU ARIANNOL Y CYNGOR TREF

Derbyn adroddiad ar y cyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi wedi'i amgáu).

5. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH: CIOSGAU BT

Derbyn ymateb Clerc y Dref i ymgynghoriad ar gynnig arfaethedig BT i gael gwared â chwe chiosg ffôn cyhoeddus yn y Rhyl (copi wedi'i amgáu) a gwneud penderfyniad yn ei gylch.

6. GWYBODAETH - ADRODDIAD CRAFFU BLYNYDDOL SIR DDINBYCH

Derbyn gohebiaeth gan Gyngor Sir Ddinbych sy'n rhoi gwybod am gyhoeddi'r adroddiad Craffu Blynyddol (copi wedi'i amgáu) ar gyfer 2018/19 ac yn gofyn i'r Aelodau dynnu sylw preswylwyr at y ddogfen.

7. EITEMAU GWYBODAETH YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan aelodau ynghylch materion brys sy'n codi; rhaid i'r Cadeirydd gytuno â'r manylion cyn i'r cyfarfod ddechrau.

8. ALLGÁU'R WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir allgáu'r Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod, yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, pan fydd y materion canlynol yn cael eu hystyried, am resymau cyfrinachedd.

9. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Ystyried, diwygio a chymeradwyo argymhellion Cyllideb Flynyddol 2020/21, gan gynnwys Cynllun Adfer Cronfeydd Wrth Gefn pum mlynedd diwygiedig (copi wedi'i amgáu) y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol er mwyn iddo gyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r cyngor a fydd yn cael ei gynnal ar 18 Rhagfyr 2019, ac er mwyn argymhell praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/2021.

[Atgoffir aelodau y gallant ofyn am ragor o wybodaeth fwy manwl am y ffigurau neu'r materion yn yr adroddiad uchod, neu drafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder, â Chlerc y Dref, y Swyddog Cyllid neu Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol/Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol unrhyw dro cyn y cyfarfod.]

10. CLOI'R CYFARFOD

Bydd y Cadeirydd yn cloi'r cyfarfod.